HUGH JAMES

Age Cymru

Arweiniad byr i dalu am ofal

Gorffennaf 2010

Elusen Gofrestredig 1128436

© Age Cymru a Hugh James Solicitors

Mae dewis eich cartref gofal yn benderfyniad pwysig a gall fod yn anodd penderfynu sut i dalu am eich gofal yno. Bwriad yr arweiniad byr hwn yw eich helpu i weld beth yw'r prif gamau y bydd angen eu cymryd wrth chwilio am gartref gofal.

Cam 1 Ystyried pa ddewisiadau sydd ar gael o ran ariannu'r gofal.

Ar hyn o bryd, mae tair prif ffordd ar gael o ariannu gofal hirdymor mewn cartref, sef:

- Gofal Iechyd Parhaus y GIG os oes gan unigolyn anghenion o ran iechyd corff neu feddwl
- o incwm a chynilion yr unigolyn
- Ariannu gan yr Awdurdod Lleol.

Beth yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG?

Os mai oherwydd eich iechyd yn bennaf yr ydych yn mynd i gartref gofal, dylai'r GIG fod yn gyfrifol am ariannu'r gofal. Gelwir hyn yn Gofal Iechyd Parhaus y GIG ac, yn aml, caiff ei ddisgrifio fel 'gofal sy'n cael ei ariannu'n llawn' gan nad oes raid i'r unigolyn gyfrannu at ei ffioedd gofal hirdymor.

Sut y caf i wybod a ydw i'n gymwys i'r GIG ariannu fy ngofal?

Y peth cyntaf i'w wneud yw gofyn i'ch Bwrdd Iechyd lleol gynnal asesiad tîm amlddisgyblaethol. Mae gan bawb hawl i gael y math hwn o asesiad ac mae'n bwysig mynd trwy'r broses hon gan ei bod yn dangos lefel eich anghenion er mwyn sicrhau eich bod yn mynd i'r cartref gofal cywir.

Dylid cynnal asesiad o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- wrth gynllunio i'ch rhyddhau o'r ysbyty
- wrth eich asesu ar gyfer cartref gofal neu cyn i chi symud o un cartref i un arall
- os ydych yn byw yn y gymuned neu mewn cartref gofal: yn ystod neu ar ôl digwyddiad iechyd arwyddocaol sy'n golygu'ch bod yn cael eich atgyfeirio at wasanaethau'r GIG neu fod newid sylweddol yn eich anghenion iechyd
- pan fydd yr Awdurdod Lleol (panel lleoliadau'r gwasanaethau cymdeithasol) yn gwneud penderfyniad ynglŷn ag ariannu'ch gofal
- pan wneir asesiad am ofal nyrsio a ariennir
- ar eich cais chi, eich teulu/gofalwr, eiriolwr neu gynghorydd proffesiynol/clinigol.

Beth os bydd y Bwrdd Iechyd lleol yn dweud nad ydw i'n gymwys?

Os na fydd y tîm asesu o'r farn eich bod yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG a chithau'n credu bod y penderfyniad yn anghywir, gallwch herio'r penderfyniad trwy gyflwyno apêl i'ch Bwrdd Iechyd lleol.

Gall herio'r penderfyniadau hyn fod yn fater cymhleth ac efallai y byddwch am gael cyngor gan eiriolwr annibynnol neu weithiwr cyfreithiol proffesiynol sy'n arbenigo yn y maes.

Beth os na chaf ofal wedi'i ariannu'n llawn?

Gall fod gennych hawl i gael cyfraniad tuag at eich gofal os ewch i gartref sy'n darparu gofal nyrsio. Ar hyn o bryd, £120.56 yr wythnos yw'r cyfraniad ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

Caiff gofal nyrsio a ariennir gan y GIG ei dalu'n uniongyrchol i'r cartref nyrsio am ofal a roddir gan nyrs gofrestredig a gyflogir gan y cartref. Pan fydd y tîm amlddisgyblaethol wedi ystyried yn llawn a ydych yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG ac wedi penderfynu nad ydych yn gymwys, dylech gael gwybod a ydych yn gymwys i gael y cyfraniad. O dan yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed os bydd y Bwrdd Iechyd lleol yn cyfrannu at gost eich gofal, ni fydd y GIG yn gyfrifol am dalu gweddill cost eich gofal. Yn hytrach, bydd eich gofal yn dod yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Lleol.

A fydd angen i mi dalu am fy ngofal fy hunan?

Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i gymryd i ystyriaeth eich sefyllfa ariannol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr arian sydd gennych yn ogystal â'r incwm rydych yn ei dderbyn. Mae'r rheolau mae'r Awdurdod Lleol yn eu dilyn yn wahanol yn dibynnu a ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr.

Yng Nghymru, os oes gennych asedau dros £22,000 bydd disgwyl i chi gwrdd â chost lawn eich gofal. Os yw eich asedau werth llai na £22,000 bydd eich incwm yn dal i gael ei ddefnyddio i ariannu eich gofal ond yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am dalu gweddill y ffioedd (yn amodol ar gyfraniad posibl ar ffurf ffioedd ychwanegol fel y trafodir isod).

Yn Lloegr, os oes gennych asedau dros £23,250 disgwylir i chi gwrdd â chost lawn eich gofal. Eto, os yw eich asedau'n werth llai na £23,250 bydd eich incwm yn cael ei ddefnyddio i ariannu eich gofal. Fodd bynnag, Tra bo'ch asedau'n cael eu prisio'n is na £23,250 ond yn uwch na £14,250 byd yr Awdurdod Lleol hefyd yn tybio cyfraniad incwm ychwanegol o £1 am bob £250 sydd gennych rhwng £14,250 a £23,250. Yn dilyn hyn, bydd y ffioedd ychwanegol yn cael eu talu gan yr Awdurdod Lleol (yn amodol ar gyfraniad posibl ar ffurf ffioedd ychwanegol fel y trafodir isod).

Yng Nghymru a Lloegr nid yw'r Awdurdod Lleol yn gallu defnyddio eich holl incwm i ariannu eich gofal gan fod rhaid iddynt adael lwfans ar eich cyfer. Penderfynir ar y lwfans hwn gan y llywodraeth ac ar hyn o bryd mae'n £22.50 yr wythnos yng Nghymru (£22.30 yr wythnos yn Lloegr). Mae'n bosibl i'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi lwfans uwch i chi ond mae'n rhaid bod rheswm da iddynt ystyried hyn (h.y. os oes gennych blentyn sy'n ddibynnol arnoch neu bartner dibriod yn byw gartre).

Pa arian sy'n cael ei gymryd i ystyriaeth?

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal asesiad ariannol ac, wrth wneud yr asesiad hwn, dim ond eich sefyllfa ariannol chi y dylent ei hystyried ac nid sefyllfa'ch g ŵr/gwraig nac aelod arall o'r teulu.

Os oes gennych asedau ar y cyd ag aelodau eraill o'r teulu, bydd yr Awdurdod Lleol yn cymryd eich rhan chi o'r asedau sydd gennych ar y cyd i ystyriaeth. Os oes gennych ased ar y cyd â dim ond un person arall, bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrif bod gennych hanner rhan yn yr ased hwnnw os nad oes tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Os ydych yn dal yr ased ar y cyd â dau o bobl eraill, byddant yn cymryd bod gennych hawl i draean o'r ased os nad oes tystiolaeth i'r

gwrthwyneb. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol wybod am eich holl asedau cyfalaf a manylion unrhyw incwm a gewch. Bydd yr asesiad yn dibynnu ar eich sefyllfa bersonol chi ac mae'n bosib na fydd eich holl asedau'n cael eu cynnwys. Dyma'r prif ffactorau a all olygu na fydd eich holl asedau'n cael eu cynnwys neu bod eu gwerth yn cael ei ostwng yn yr asesiad ariannol:

- Os bydd eich partner, perthynas sydd dros 60 oed neu berson dibynnol o dan 16 oed yn dal i fyw yn eich cartref, ni ddylid cymryd gwerth y cartref i ystyriaeth tra byddant yn dal i fyw yno.
- Ni ddylid cymryd gwerth eich cartref i ystyriaeth yn ystod 12 wythnos gyntaf eich arhosiad.
- Os oes unrhyw rai o'ch asedau yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth deulu, yna, yn dibynnu ar delerau'r ymddiriedolaeth, ni ddylent gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol.
- Ni ddylai gwerth buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag aswiriant bywyd gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol.
- Gellir gostwng gwerth eich cartref os ydych yn berchen arno ar y cyd ag aelod o'r teulu.
- Os ydi'ch gŵr/gwraig neu bartner sifil yn dal i fyw gartref, dylid anwybyddu 50% o'ch pensiwn galwedigaethol.

Hefyd, fel rhan o broses yr asesiad ariannol, gall yr Awdurdod Lleol ystyried sut y mae eich asedau wedi gostwng islaw'r swm gofynnol, yn bennaf er mwyn gweld a ydych wedi rhoi asedau i ffwrdd yn ddiangen.

Gall cost eich gofal fod yn uchel ac mae'n hanfodol bod eich asesiad ariannol yn cael ei gynnal yn y ffordd gywir. Os credwch fod yr Awdurdod Lleol wedi gwneud asesiad anghywir o'ch asedau neu os byddant yn cwestiynu sut y gwariwyd eich asedau, efallai y byddwch am gael cyngor gan eich eiriolwr annibynnol neu gynrychiolydd cyfreithiol sy'n arbenigo yn y maes.

Pa opsiynau sydd ar gael i mi os nad ydw i am werthu fy nghartref?

Mae modd gwneud cytundeb talu gohiriedig gyda'r Awdurdod Lleol. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn cytuno i dalu cost eich gofal ac yna'n cael eu harian yn ôl pan fydd eich cartref yn cael ei werthu. Ni fyddant yn codi llog ar yr arian sy'n ddyledus yn ystod eich oes chi. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi arwystl ar eich eiddo i sicrhau y cânt y ffioedd yn ôl. Dylech geisio cyngor cyfreithiol cyn ymrwymo i gytundeb fel hyn.

Cam 2 Dewis y cartref gofal cywir

Bydd angen i chi gael gwybodaeth am y cartrefi gofal yn eich ardal. Gall gwahanol bobl eich helpu i wneud hyn a dyma'r rhai y dylech siarad â nhw i ddechrau:

- eich ffrindiau a'ch perthnasau rhag ofn y byddan nhw'n gwybod am le da
- eich Gweithiwr Cymdeithasol
- Age Cymru
- y corff cenedlaethol sy'n rheoleiddio cartrefi gofal:
    - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
    - y Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr)
- yr Elderly Accommodation Counsel.

Ar ôl gwneud rhestr o'r cartrefi gofal yr hoffech eu gweld, bydd angen paratoi rhestr o gwestiynau i'ch helpu i ddewis cartref sy'n addas i chi. Gallwch gael help i lunio'r rhestr gan Age Cymru, gwefan Age Cymru www.agecymru.org.uk neu Age Concern yn lleol.
Ar ôl dewis cartref, bydd angen i chi ddarllen y contract gofal a gofalu eich bod yn gwybod yn iawn beth yw'r gost er mwyn sicrhau eich bod yn fodlon â'r telerau. Os yw'r Awdurdod Lleol yn eich helpu i dalu am eich gofal, bydd angen i chi drafod y contract a'r ffioedd gyda nhw.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrannu at gostau fy ngofal, a gaf i ddewis i ba gartref i fynd?

Dylai'r Awdurdod Lleol drefnu i chi fynd i'r cartref o'ch dewis ar yr amod:

- bod y cartref gofal yn diwallu eich anghenion
- nad yw'n costio mwy nag y byddai'r Cyngor yn disgwyl ei dalu fel arfer
- bod lle yno i chi
- bod y cartref gofal yn barod i ymrwymo i gontract gyda'r Awdurdod Lleol

Beth os bydd ffioedd y cartref gofal yn uwch nag y mae'r Awdurdod Lleol yn barod i'w dalu?

Os oes cartref gofal arall ar gael sy'n diwallu'ch anghenion chi ac sy'n costio llai, bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno i chi fynd i'r cartref gofal o'ch dewis ar yr amod bod aelod o'r teulu yn gallu talu'r gwahaniaeth yn y ffioedd. Yr enw ar hyn yw 'ffioedd atodol'. Cofiwch y gall y ffioedd hyn godi'n sydyn. Os mai'r cartref gofal o'ch dewis yw'r unig gartref sy'n diwallu'ch anghenion, dylai'r Awdurdod Lleol gytuno i dalu holl gost y lleoliad os nad oes modd dod o hyd i gartref arall.

Cam 3 Gofalwch fod eich teulu a'ch ffrindiau'n gallu'ch helpu yn y dyfodol

Fel rheol, byddwch yn mynd i gartref gofal am fod angen mwy o ofal a chymorth arnoch. Os hoffech i rywun y gallwch ymddiried ynddo/ynddi gael eich helpu i wneud penderfyniadau am eich arian a'ch iechyd a'ch lles, dylech ystyried pwy i'w ddewis. Ar ôl i chi ddewis rhywun yr ydych yn ei drystio, mae'n bwysig i chi ystyried rhoi caniatâd ffurfiol iddo/iddi i ddelio â'r materion hyn drosoch. Gallwch wneud hyn trwy lofnodi Atwrneiaeth Arhosol (LPA). Mae dau wahanol fath o Atwrneiaeth Arhosol:

- eiddo a materion ariannol – mae hyn yn golygu y gallwch roi caniatâd i rywun ddefnyddio'ch cyfrifon banc i dalu am bethau y mae arnoch chi eu hangen ac, o bosib, i reoli'ch holl asedau
- iechyd a lles – mae hyn yn golygu y gallwch roi caniatâd i rywun wneud penderfyniadau drosoch am eich iechyd a'ch lles pan na allwch wneud y penderfyniadau hyn eich hunan.

Os na wnewch chi lofnodi LPA pan fyddwch yn gallu gwneud hynny, bydd raid i'ch teulu neu'ch ffrindiau wneud cais i'r Llys i ofyn am ganiatâd i ddelio â phethau ar eich rhan. Gall hyn fod yn broses hir a thrafferthus.

Rhestr gyfeirio

Y cam cyntaf

1 gofyn am asesiad amlddisgyblaethol gan eich Bwrdd Iechyd lleol

Gofal parhaus wedi'i ganiatáu

2 casglu gwybodaeth am Gartrefi Gofal addas yn eich ardal chi

3 gwneud rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r Cartref Gofal er mwyn bod yn siwr bod y cartref yn diwallu'ch holl anghenion

Gofal parhaus wedi'i wrthod

4 os na fyddwch yn cytuno â phenderfyniad y tîm amlddisgyblaethol, cewch gyflwyno apêl gyda'r Bwrdd Iechyd lleol

5 ystyriwch gysylltu ag un o eiriolwyr annibynnol neu weithiwr cyfreithiol proffesiynol sy'n arbenigo yn y maes i'ch helpu gyda'r apêl

6 ewch ati i gyfrif eich asedau

7 os yw'ch asedau'n werth llai na £22,000 nawr neu'n debygol o ddisgyn o dan £22,000, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol i drefnu asesiad ariannol

8 holwch am restr o'r cartrefi gofal yn eich ardal

9 trefnwch i fynd i weld y cartrefi sy'n fwyaf addas ar eich cyfer a gwnewch restr o gwestiynau i'w gofyn yno

10 ar ôl dewis eich cartref, gofynnwch am gopi o'r contract perthnasol a manylion y ffioedd

11 os yw'r Awdurdod Lleol yn eich helpu i dalu, cysylltwch â nhw i wneud yn siwr eu bod yn fodlon â'r cartref gofal yr ydych wedi'i ddewis

12 os byddwch yn dewis cartref gofal mwy costus, bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw drefniant y mae'r Awdurdod Lleol yn ei gynnig ynghylch ffioedd atodol

13 meddyliwch a fyddai'n ddoeth llofnodi Atwrneiaeth Arhosol (LPA).

Cysylltiadau defnyddi

Age Cymru
Tŷ John Pathy
13/14 Cwrt Neptune
Ffordd Blaen y Gad
Caerdydd CF24 5PJ

Llinell Gymorth: 0800 169 65 65
Gwefan: www.agecymru.org.uk
E-bost: enquiries@agecymru.org.uk

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
4-5 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848 450
Gwefan: www.cssiw.org.uk
E-bost: cssiw@wales.gsi.gov.uk

Comisiwn Ansawdd Gofal / Care Quality Commission
Citygate
Gallowgate
Newcastle Upon Tyne NE1 4PA

Ffôn: 03000 61 61 61
Gwefan: www.cqc.org.uk
E-bost: enquiries@cqc.org.uk

Elderly Accommodation Counsel
3rd Floor
89 Albert Embankment
Llundain/London SE1 7TP

Ffôn: 020 7820 1343
Gwefan: www.housingcare.org
E-bost: enquiries@eac.org.uk

Hugh James Solicitors
Hodge House
114-116 Heol y Santes Fair
Caerdydd CF10 1DY

Ffôn: 029 2022 4871
Gwefan: www.hughjames.co.uk
E-bost: nursing.care@hughjames.com

© Age Cymru a Hugh James Solicitors

Age Cymru is the new force combining
Age Cymru yw y grym newydd sy'n cyfuno
Help the Aged yng Nghymru
Help the Aged in Wales
Age Cymru is working in partnership with local Age Concerns
Mae Age Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Age Concerns lleol